

Dathlu yn y Dyffryn

Día de la Patria a Día de la Bandera



Ysgol Feithrin 415 Mair ap Iwan de Robertsz, y Gaiman yn canu ar 25 Mai.

Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn llawn o wahanol ddathliadau yn Nyffryn Camwy. Tra roedd rhai yn ddathliadau lleol, cafodd eraill eu dathlu trwy'r wlad i gyd.

Dau ddyddiad pwysig ar galendr yr Ariannin ydy 25 Mai a 20 Mehefin.

Ond pam hynny?

Ar y 25ain o Fai rydyn ni'n dathlu 'Día de la Patria', achos ar y dyddiad yma yn y flwyddyn 1810, cafodd llywodraeth gyntaf yr Ariannin ei sefydlu. Digwyddodd hyn yn ystod wythnos sy'n cael ei adnabod yn 'Revolución de Mayo', pan gafodd Viceroy Cisneros ei ddisodli gan y 'Primera Junta'. Hon oedd llywodraeth gyntaf y wlad, ac yn cael ei hystyried fel y cam cyntaf yn Rhyfel Annibyniaeth yr Ariannin.

Cafodd seremonïau eu cynnal ar hyd a lled y Dyffryn i gofio'r digwyddiad hanesyddol yma. Yn draddodiadol mae pobl yn treulio'r diwrnod gyda'r teulu, ac yn bwyta 'locro' ac 'empanadas'.

Ar yr 20fed o Fehefin 1820, bu farw Manuel Belgrano, sef crëwr baner yr Ariannin. Ers 1938, mae 'Día de la Bandera' yn ddiwrnod arbennig ar gyfer y faner, ac i gofio am Belgrano.

Cafodd y faner ei chodi am y tro cyntaf ar 27 Chwefror 1812, yn ystod Rhyfel Annibyniaeth yr Ariannin. Mae gwahanol ddehongliadau i liwiau'r faner. Mae rhai pobl yn dweud mai'r awyr ydy'r lliw glas a'r cymylau ydy'r lliw gwyn, tra bod eraill yn credu mai symbol o'r Forwyn Fair ydyn nhw.



Disgyblion Ysgol yr Hendre gyda'u tystysgrifau

Ar 'Ddiwrnod y Faner', bydd plant blwyddyn 4 mewn ysgolion ar hyd a lled y wlad yn addo bod yn deyrngar i'r faner. Ar ôl gwneud yr addewid, maen nhw'n derbyn tystysgrif.

Eisteddfod Mini Bethel

Ar y 18fed o Fehefin, cynhaliwyd Eisteddfod Mini Bethel. Dyma'r tro cyntaf iddi gael ei chynnal ar ôl dwy flynedd o seibiant. Roedd hen gapel Bethel yn orlawn gyda chystadleuwyr a chefnogwyr, a dros 150 o blant yn bresennol! Ac am brynhawn bendigedig o gystadlu...




Agorwyd yr Eisteddfod mewn gair o weddi - Lois Dafydd yn Gymraeg, a Judith Jones yn Sbaeneg - a chanu anthem yr Ariannin, cyn i Gonzalo Lizama arwain cystadlaethau'r plant, a Samira Orive yn cyhoeddi enillwyr y tasgau ysgrifenedig. Roedd amrywiaeth o gystadlaethau canu ac adrodd yn Gymraeg ac yn Sbaeneg, a'r safon yn uchel.

Penderfynodd pwyllgor yr eisteddfod mai cydadrodd fyddai'r plant eleni, ac ymddangosodd nifer fawr ar y llwyfan, gan gynrychioli gwahanol ysgolion lleol. Tasg anodd i'r beirniaid oedd penderfynu ar enillwyr!



Yna ymlaen at yr oedolion dan ofal Glenda Thomas a Santiago Meza. Cafodd y gynulleidfa wledd gan y cystadleuwyr hŷn hefyd - corau, cydadrodd, eitem gan Ysgolion Sul, canu emyn, sgests, a chanu teuluol. Cyhoeddodd Santiago Meza enillwyr y cystadlaethau coginio - roedd sôn am y pwddin reis a'r 'torta fritas' yn ddigon i dynnu dŵr i'r dannedd! Daeth y prynhawn gwych o gystadlu i ben am 19.30 gyda chanu 'Hen Wlad Fy Nhadau'.

Llongyfarchiadau i'r pwyllgor ar eisteddfod lwyddiannus!



Y Testament Newydd Cymraeg-Sbaeneg

Ar yr 11eg o Fehefin, cafodd y Testament Newydd Cymraeg-Sbaeneg ei lansio yn y Ffair Lyfrau yn y Gaiman. Roedd y cwrdd yn Sbaeneg, a rhoddodd cadeirydd Undeb yr Eglwysi, Mrs Irma Williams hanes sut daeth y cyhoeddiad i fod. Roedd gweddi o ddiolch gan Jorge Leccese, cyn i Judith Hughes gyflwyno dau gopi o'r Testament i Lyfrgell y Gaiman. Rhannodd y Parch. Nellie Ritchie ei hatgofion hi o Mair Davies ar ffurf llythyr ati - hyfryd iawn. Ac yna anerchiad gan y Dr Alberto Roldán o Buenos Aires ar y pwnc, 'Cariad, cyfiawnder a rhyddid o safbwynt diwinyddol ac athronyddol'. Roedd y neuadd ar lawr cyntaf y gampfa yn orlawn.



Fore Sul, y 12fed o Fehefin, cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch am fywyd a gwaith Mair Davies yng Nghapel Bethel. Roedd y cwrdd yn ddwyieithog, a chynulleidfya niferus yn bresennol o bob cwr o Ddyffryn Camwy.

Cafwyd gair o groeso gan y Parch. Carlos Ruiz, gweddi gan Claudia Ansalado, darlenniad dwyieithog o Salm 66 gan Lisa Hughes a Josefina Torres, eitem gan aelodau ifanc Bethel a Tabernacl, yr offrwm dan ofal Juan Pedro a Muriel Basic a'r weddi gan Adrián Mellado, a chyhoeddiadau gan Luned González. Darllenwyd cyfarchion gan Judith Hughes, a darllenodd Iwan Madog o'r Andes y gerdd 'Dychwelyd' gan Mary Green i gofio am Mair Davies. Traddododd y Dr Alberto Roldán neges yn seilliedig ar Salm 19, yn pwysleisio gwerth Gair Duw. Canwyd emynau Cymraeg a Sbaeneg dan arweiniad Gladys Thomas, a Judith Jones yn cyfeilio. I gloi'r cyfarfod, cafwyd gweddi gan y Parch. Carlos Ruiz.



Luned Gonzalez

Pob hwyl yng Nghymru!

Dymuniadau gorau i Lorena Peralta, Porth Madryn, ac Alcira Williams, Trelew, sydd yn teithio i Gymru ddiwedd mis Mehefin!

Bydd y ddwy yn dilyn cyrsiau yn y Ganolfan Gymraeg i Oedolion yng Nghaerdydd.

Pob hwyl!

Cyfarfod 150ml y Wladfa

Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd Dewi Sant ar y 24ain o Fehefin, i drafod dathliadau 150 o flynyddoedd y Wladfa fydd yn digwydd yn 2015. Cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan bwyllgor Cymdeithas Dewi Sant, ac roedd nifer o bobl yn bresennol i rannu eu syniadau. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar y 29ain o Orffennaf.

Diwrnod y Llyfr 2011

Mae Mehefin wedi bod yn llawn gwahanol ddatgliadau, a doedd y 15fed o'r mis ddim yn eithriad. Ar y dyddiad yma yn 1908, dechreuodd 'Gŵyl Lyfrau' yn yr Ariannin, ond ers 1941 yr enw arno ydy 'Diwrnod y Llyfr'.

Pwrpas Diwrnod y Llyfr ydy annog pobl o bob oedran i ddarllen llyfrau, a chafodd plant Ysgol Feithrin y Gaiman amser ardderchog yn dathlu. Roedd nifer ohonyn nhw wedi gwisgo yn arbennig at yr achlysur, gan gynnwys Eira Wen, Zorro, arth wen, Ben 10, a thywysoges. Roedd pob un yn edrych yn wych!



Daeth y plant â'u hoff lyfrau gyda nhw hefyd, rhai Cymraeg a rhai Sbaeneg, er mwyn eu dangos i weddill yr ysgol. Eisteddodd y tri dosbarth gyda'i gilydd i wrando ar ddau o'r llyfrau yma'n cael eu darllen. Darllenodd Lois Dafydd, Menter Patagonia, lyfr Cymraeg gyda help Mabon Lewis, cyn i Rebeca White gael help llaw Ari Jones i ddarllen llyfr Sbaeneg. Roedd pawb - y plant, yr athrawon, a'r rhieni - yn mwynhau gwrando ar anturiaethau'r cymeriadau!

Bu'r plant yn canu ac yn adrodd er mwyn dod â'r prynhawn o hwyl i ben.

Holi Delia Evans...

1. Ble cawsoch chi eich geni?

Yn Nolavon.

2. Beth yw eich atgof cynharaf?

Roeddwn ni'n byw ar y ffarm, ac aeth chwaer fy mam â'i hewythr i'r ysbyty - roedd mam yn crio.

3. Ble a sut ddysgoch chi Gymraeg?

Cefais fy ngeni gyda'r Gymraeg, achos roedd fy rhieni'n ei siarad.

4. Beth yw eich hoff air Cymraeg?

Bythgofiadwy.

5. Beth ydych chi'n hoffi ei wneud?

Gwau, gweithio gyda chymdeithas.

6. Beth nad ydych chi'n hoffi ei wneud?

Smwddio.

7. Ers pryd ydych chi'n llywydd ar Eisteddfod Porth Madryn?

Ers 2004. Dwi'n rhedeg ar ôl pawb i wneud y gwaith!

8. Ers pryd ry'ch chi'n gweithio yn yr amgueddfa ym Mhorth Madryn?

Yn 2002.

9. Ydych chi wedi dysgu rhywbeth newydd ers dechrau gweithio yno?

Dwi wedi dysgu llawer o bethau, er enghraifft, hanes baner y Wladfa.

10. Beth yw eich hoff lyfr?

Dwi wedi darllen llawer o lyfrau, ond dwi ddim yn hoffi un yn fwy na'r lleill.

11. Beth yw eich hoff/cas fwyd?

Empanadas - pob math! / Meringue.

12. Ble mae eich hoff le yn y byd?

Ynys Enlli yng Nghymru.



Coginio ym Mhorth Madryn



Brynhawn Sadwrn y 4ydd o Fehefin, dechreuodd Cwrs Coginio Cymreig ym Mhorth Madryn. Y Gymdeithas Gymraeg sy'n ei drefnu, a thair gwrs wedi cael eu cynnal erbyn hyn.

Ar y 25ain o Fehefin, daeth deugain o bobl i Dŷ Toshke ar gyfer y wers ddiweddaraf. Nelcis Jones a Betty Morgan oedd y cogyddion, ac roedd pawb yn gwrando'n astud arny'n nhw er mwyn ysgrifennu pob peth yn eu llyfrau nodiadau!



I ddechrau, dangosodd Nelcis Jones sut mae gwneud croen oren wedi'i grisialu - 'cascaritas'. Ond prif wers y prynhawn oedd y deisen ddu. Mae gan bob teulu yn y Wladfa ei ffordd arbennig o goginio teisen ddu, a rhannodd Betty Morgan rysâit ei nain hi yn gyntaf - oedd yn cynnwys rhoi'r gymysgedd ar dân!

Yna, dangosodd Nelcis Jones sut i goginio bara brith. Mae bara brith yn boblogaidd iawn yng Nghymru, ac o'r gacen yma daeth y deisen ddu. Wrth i'r bara brith bobi yn y ffwrn, rhannodd hi rysâit teisen ddu ei theulu gyda'r dosbarth.

Ac wrth gwrs, roedd yn rhaid eu blasu gyda phaned o de! Roedd y teisenod yn flasus dros ben - a'r bara cartref, y deisen blât, y deisen hufen, a'r pice bach... Prynhawn bendigedig!

Bydd y wers nesaf yn cael ei chynnal ar y 30ain o Orffennaf.



Diwrnod Rhyngwladol Twm Siôn Cati

Ar Fai 17eg, roedd hi'n Ddiwrnod Rhyngwladol Twm Siôn Cati, sef y lleidr hoffus o Dregaron. Mae cyfoeth o chwedlau poblogaidd wedi codi o'i anturiaethau, ac roedd plant Ysgol yr Hendre yn ddigon ffodus i gael Lois Dafydd (Menter Patagonia) i ddod â'r straeon yn fyw iddyn nhw.

Yn dilyn y straeon di-ri, cawson gyfle i sgwrsio a chanu gyda phlant Ysgol Gynradd Tregaron, ac wrth gwrs neb lla na 'Twm Siôn Cati' ei hun! Yn ôl y sôn, cafodd y plant eu pymtheg munud o enwogrwydd pan ymddangosodd llun ohonynt yn canu ar Skype ar raglen deledu 'Wedi 7' draw yng Nghymru.



Plant blwyddyn 3 yn eu masgiau peryglus



Yn dilyn y bwrlwm, aeth y plant ati i dynnu lluniau digidol o anturiaethau Twm Siôn Cati. Wel, sôn am hwyl! Rhwng y gwisgoedd, y colur a'r golygfeydd cusanu, roedd yno ddigon o chwerthin i'w gael. Bellach, mae'r lluniau i'w gweld mewn comic arbennig a greodd plant Blwyddyn 4 a 5. Dim ond gobeithio bydd cyfle i wneud y cwbl eto'r flwyddyn nesaf!

Nia Wynne Griffith

Lludw, lludw, a mwy o ludw...

Mae'n siŵr bydd pawb yn cofio Mehefin 2011 am wahanol resymau. Ond pwy allai anghofio'r lludw?! Syndod mawr oedd diuno ar fore'r 5ed o Fehefin a phopeth wedi eu gorchuddio dan flanced wen. A chyn mynd allan i adeiladu dyn eira, sylweddoli mai lludw oedd y peth gwyn!



Y lludw ar Stryd Alem yn Nhrelew.

Ffrwydrodd llosgfynydd Puyehue-Cordon Caulle, sydd 40km o'r ffin rhwng Chile a'r Ariannin, am 16.00 o'r gloch ar brynhawn Sadwrn y 4ydd o Fehfin. Cododd cwmwl o ludw o'r llosgfynydd, a chafodd ei chwythu gannoedd o filltiroedd ar draws yr Ariannin. Roedd yn rhaid i bobl adael eu cartrefi mewn rhai llefydd, a doedd dim awyrennau yn hedfan i Batagonia.



Y Gaiman dan flanced wen.

Cafodd pobl eu rhybuddio i beidio â gadael eu cartrefi os nad oedd raid, rhag ofn iddyn nhw anadlu'r lludw, a chafodd yr ysgolion eu cau am dridiau.

Mae pethau bellach wedi dychwelyd i drefn. Ond mae'n siŵr y byddwn ni'n dod o hyd i ludw mewn sawl twll a chornel am amser hir...

Amgylchiadau Arbennig!

Ers rhai blynyddoedd rwan mae arholiadau CBAC wedi cael eu cynnal yn Ne Amerig, yn rhan o'r prosiect 'Dysgu Cymraeg yn y Wladfa'. Maen nhw bob yn ail flwyddyn yn Nyffryn Camwy ac yn yr Andes. Fi, Clare Whitehouse, Cydlynnydd Dysgu'r project yn yr Ariannin sy'n gyfrifol am drefnu'r arholiadau. Ond wrth ddarllen y 'Cyfarwyddiadau ar gyfer trefnyddion' roedd problem fach: does dim cyfarwyddyd ar beth i'w wneud yn achos ffrwydrad llosgfynydd!

Roeddwn i'n gwylio'r sefyllfa o'r Andes, o dan awyr las, ac yn poeni yn arw y byddai problem efo'r arholiad. Hyd yn oed pan adewais i Esquel ar y bws nos i gyrraedd Trelew erbyn bore Gwener, doeddwn i ddim yn siŵr beth fyddwn i'n ei weld wrth gyrraedd.

Yn ffodus, dydy dysgwyr yr Ariannin ddim yn barod i haen o ludw llosgfynyddol amharu ar y posibiliad iddyn nhw sefyll arholiad Defnyddio'r Gymraeg: Mynediad.

Roedd pawb wedi cyrraedd yn brydlon gyda gwên fawr. Aeth popeth fel cloc er gwaetha'r llwch ar y byrddau, cadeiriau, peiriant recordio, bwrdd gwyn... a diolch byth, erbyn yr arholiad lefel Sylfaen yr wythnos ganlynol, roedd yr awyr rhywfaint yn oleuach, ac eto - ar wahân i doriad trydan yn y canol! - roedd popeth yn iawn.



Llongyfarchiadau i'r 15 a fentrodd i sefyll yr arholiad. Credaf iddyn nhw gael budd o'i wneud, a bydd trefi'r Andes yn gweithio'n galed i baratoi at yr her y flwyddyn nesaf - a chroesi bysedd na fydd amgylchiadau arbennig bryd hynny!

Clare Whitehouse

Cornel y Dysgwyr

Helo!

Shwmai?!

Pwy wyt ti?

Beth ydy dy enw di?

Manuel ydw i.

Ble wyt ti'n byw?

Dwi'n byw yn Comodoro.

Faint oed wyt ti?

Dwi'n 35 oed.

Ta-ta!

Rincon de aprenda Galés

Hola!

Que tal?!

Quien sos?

Cual es tu nombre?
Cómo te llamas?

Soy Manuel.


Donde vivis?

Vivo en Comodoro.

Cuántos años tienes?

Tengo 35 años.

Chau!



Diolch yn fawr i noddwyr y rhifyn hwn...

Gwalia Lân

Bwyty safonol
gydag awyrgylch
Gymreig a chroeso
cynnes.




Cornel Heol Eugenio Tello
a Heol Michael D. Jones, Gaiman.



Cwmni Teithio Arbenigol


www.teithiautango.co.uk



Nwyddau
ar gyfer
ffermwyr

camposur

SERVICIOS AGROPECUARIOS
CHILE 32 Tel:(02965)436259-Tw.



Plas-y-Coed

Tŷ Te hynaf
Gaiman.

Croeso Cymreig a
the traddodiadol ers 1944.

Heol Michael D. Jones, Gaiman

Crymbl Afalau - pwdin perffaith ar gyfer y gaeaf.

Cynhwysion: 225g blawd codi
110g siwgr
110g menyn
digon o afalau, heb eu croen

Rhwbiwch y blawd a'r menyn gyda blaen eich bysedd nes ei fod fel briwsion, wedyn ychwanegwch y siwgr.

Torrwch yr afalau yn dafelli i mewn i fowlen fawr.

Arllwyswch rhywfaint o siwgr drosto.

Ychwanegwch rhywfaint o ddŵr ato.

Rhowch y crymbl (blawd, menyn a siwgr) dros y cyfan.

Coginiwch ar dymheredd o 180 gradd am tua hanner awr - nes bydd yr afalau wedi meddalau a'r crymbl yn dechrau troi'n frown. Cadwch lygaidd arno, rhag ofn iddo losgi.

Bwyteuoch yn boeth gyda chwstard cynnes, hufen, neu hufen-iâ.



Rygbi: Ariannin dan 20 v Cymru dan 20

Chwaraeodd tîm rygbi dan 20 Ariannin yn erbyn tîm dan 20 Cymru yng ngêm agoriadol Pencampwriaethau Iau y Byd ar y 10fed o Fehefin, yn Stadiwm Plebiscito, Padua, yr Eidal. Serenodd Matthew Morgan i Gymru wrth iddyn nhw guro Ariannin o 34 i 8, gan ennill pwynt bonws yn ychwanegol. Sgoriodd Morgan 19 pwynt yn ystod y gêm, gan gynnwys cais yn yr hanner cyntaf. Sgoriodd Liam Williams gais i roi Cymru 17 - 0 ar y blaen, cyn i Marcos Bollini sgorio cais dros Ariannin cyn hanner amser.

Sgoriodd Eli Walker gais i Gymru ar ddechrau'r ail hanner. Er Brian Ormson gael cic gosb i Ariannin a llwyddo i arafu'r gêm rywfaint, sgoriodd Liam Williams bedwerydd cais Cymru ar ôl 68 munud.

Ariannin 8 - 34 Cymru


Ceisiadau: Marcos Bollini Matthew Morgan
Liam Williams (2)
Eli Walker

Trosiadau: Matthew Morgan (4)

Ciciau cosb: Brian Ormson Matthew Morgan (2)



Croesair Bwyd



I LAWR:

1. ____ A FFORC (5)
2. NID CACEN WEN (6,2)
4. AFAL, BANANA, OREN, EIRIN (7)
5. MILKA, CADBURY'S, TODDY (7)
7. ____ A PHUPUR (5)
11. DAIL AR GYFER MATÉ (5)
12. CIG I'W FWYTA YNG NGHYMRU ADEG Y NADOLIG (5)
14. TEISEN GYDA JAM LLAETH A CHNEUEN GOCO FÂN (7)
16. BETH MAE GWENYN YN EI GREU? (3)
19. BWYD CYMREIG TRADDODIADOL SY'N CYNNWYS CIG A LLYSIAU (4)
20. PANCHO (2, 4)

AR DRAWS:

3. EI FWYTA AR 25 MAI A 9 GORFFENNAF (5)
6. HELADO (5,2)
8. GELLIR EI LENWI GYDA CHIG, HAM A CHAWS, NEU INDIA CORN (8)
9. LLYSIEUYN CENEDLAETHOL CYMRU (8)
10. TATWS, MORON, PWPEN, FFA (6)
13. DWY DAFELL O FARA, MENYN, A LLENWAD (7)
15. STIW YN YR ARIANNIN (5)
16. DARN O GIG MEWN BRIWSION BARA (8)
17. DULCE DE LECHE (3, 4)
18. BWYTEWCH Y CRYMBL YN BOETH GYDA ____ CYNNES, HUFEN, NEU HUFEN-IÂ (7)
21. EI FWYTA GYDA 'CYRI' (4)

Cofiwch fod 'ch', 'dd', 'ff', 'ng', 'll', 'rh' 'th' yn un llythyren!

Geirfa'r Mis

dathliad(au)	<i>celebración(es)</i>
sefydlu	<i>establecer</i>
disodli	<i>desbancar</i>
ar hyd a lled	<i>en todos lados de</i>
crëwr	<i>creador</i>
dehongliad(au)	<i>interpretación(es)</i>
teyrngarwch	<i>lealtad</i>
tystysgrif	<i>certificado</i>
seibiant	<i>una pausa</i>
orlawn	<i>replete</i>
tasg(au)	<i>tarea(s)</i>
bwrlwm	<i>movimiento</i>
briwsion	<i>las migas</i>

Vocabulario del Mes


cyfarwyddiadau	<i>instruccions</i>
bwydlen	<i>menú</i>
cynrychioli	<i>representa</i>
lludw	<i>ceniza</i>
atgofion	<i>recuerdas</i>
eithriad	<i>exepción</i>
anturiaeth(au)	<i>aventura(s)</i>
gwradno'n astud	<i>escuchar con atentamente</i>
ffodus	<i>afortunadamente</i>
enwogrwydd	<i>fama</i>
tafell(i)	<i>rebanada(s)</i>
ffrwydro	<i>explotar</i>
tynnu dŵr i'r dannedd	<i>que hace la boca agua</i>

Cornel y Plant

Llongyfarchiadau mawr i
Helen Green o'r Gaiman
ar ennill y wobwr am liwio llun
Sali Mali!

Lliwiwch Miffi

Anfonwch y llun wedi'i liwio gyda'ch enw at
Lois Dafydd erbyn 25 Gorffennaf am gyfle i
ennill gwobr.



Chwilair Anifeiliaid

c	w	n	i	ng	e	n	r	a	f	n	cwningen
r	d	l	y	d	f	e	w	j	t	u	neidr
o	a	s	h	g	w	i	b	s	r	a	dafad
c	e	ff	y	l	t	d	a	f	a	d	crocodeil
o	l	s	e	p	b	r	c	g	h	e	eliffant
d	w	c	t	c	n	o	w	p	l	r	ci
e	l	i	ff	a	n	t	g	h	a	y	aderyn
i	d	r	h	n	j	g	dd	f	s	n	ceffyl
l	b	l	f	o	p	l	s	y	t	c	

Os hoffech chi gyfrannu unrhyw beth at 'Clecs Camwy', neu ei noddi,
cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 2965 386 198